S4C Rhyngwladol Cyf ("S4CI")
Tendr ar gyfer Cytundeb Gwerthu Nawdd a Hysbysebu

Cefndir

Mae'r darlledwr gwasanaeth cyhoeddus S4C yn darlledu gwerth dros 80 awr o raglenni teledu Cymraeg bob wythnos, gan gynnwys chwaraeon, cerddoriaeth, digwyddiadau, drama, newyddion, rhaglenni dogfen a rhaglenni plant. Ar hyn o bryd, mae S4C yn darlledu S4C a'r gorau o blith rhaglenni Channel 4 ar y llwyfan analog, ac yn darlledu S4C DDigidol ac S4C2 ar y llwyfannau digidol ("gwasanaethau teledu S4C"). Yn ogystal, mae'n darlledu'r rhan fwyaf o'i gynnwys yn gydamserol ac yn cynnig gwasanaethau ychwanegol dros y rhyngrwyd trwy gyfrwng gwefan S4C gan ddefnyddio technoleg band llydan ("gwasanaethau band llydan S4C"). Mae S4C hefyd yn gobeithio lansio gwasanaeth newydd i blant ar y llwyfan digidol yn y dyfodol.

Mae gwasanaethau teledu S4C ar gael y tu allan i Gymru ar sianel 134 Sky, nad yw wedi'i encryptio, yn ogystal â thrwy gyfrwng gwefan S4C. Mae S4C yn adolygu yn gyson ac adnabod cyfleoedd er mwyn cynnig ein gwasanaethau ar lwyfannau eraill a newydd yn y Ddeyrnas Unedig a thu hwnt.

Mae S4CI, is-gwmni S4C, yn gyfrifol am gynhyrchu refeniw hysbysebu a nawdd trwy fanteisio ar y cyfleoedd masnachol sydd ar gael o fewn gwasanaethau teledu S4C a gwasanaethau band llydan S4C (gan gynnwys y gwasanaeth newydd i blant ar ôl iddi gael ei lansio, ond heb gynnwys gwasanaeth S4C2 gan nad yw'r gwasanaeth hwn yn cynhyrchu refeniw). Caiff gweithgarwch gwerthu amser hysbysebu a chyfleoedd noddi a'r gwaith gweinyddu cysylltiedig, ei allanoli gan S4CI a bydd y cytundebau presennol yn dod i ben ar ddiwedd 2008. Mae S4CI yn bwriadu dyfarnu cytundeb newydd a fydd yn cynnwys y gweithgareddau hyn ac a fydd yn dod i rym ar ddechrau 2009. Bwriedir dyfarnu cytundeb tair blynedd o hyd gyda'r dewis o'i ymestyn am 12 mis pellach. Mae'r cyfnod hyn yn debygol o gynnwys y cyfnod pan fydd gwasanaethau analog yn cael eu diffodd yng Nghymru. Felly, bwriedir i'r cytundeb ddatgan y bydd gwasanaeth analog S4C (gan gynnwys darlledu rhaglenni Channel4) yn cael ei ddileu o'r cytundeb wrth i'r gwasanaeth analog gael ei ddiffodd.

Y broses dendro

Mae S4CI wedi penderfynu cynnig y cytundeb arfaethedig o dan dendr.

Bydd y broses dendro yn cael ei chynnal mewn dau gam: bydd y cam cyntaf yn cynnwys gofyn i ymgeiswyr gwblhau Ffurflen Gais a'i ddanfon at S4CI er mwyn i S4CI fedru llunio rhestr fer o'r sefydliadau hynny yr estynnir gwahoddiad iddynt dendro. Bydd yr ail gam yn cynnwys gofyn i'r rheini ar y rhestr fer i gwblhau tendr ffurfiol er mwyn i S4CI fedru gwerthuso'r tendrau a gyflwynwyd a dewis y tendr llwyddiannus.

Y Cam Cyntaf: Ffurflen Gais i gael eich cynnwys fel Sefydliad ar y Rhestr Fer i'r Tendr ar gyfer y Cytundeb Gwerthu Nawdd a Hysbysebu (y "Ffurflen Gais")

Bydd angen i sefydliadau y mae ganddynt ddiddordeb yn y broses dendro lenwi a chyflwyno copi o'r Ffurflen Gais, y gellir cael copi ohoni trwy ymweld â www.s4c.co.uk/s4ci <http://www.s4c.co.uk/s4ci>. Ar ôl ei chwblhau, rhaid cyflwyno'r Ffurflen Gais mewn ffurf electronig YN UNIG drwy ei hanfon mewn neges e-bost at: [commercial@s4c.co.uk] ac mae'n rhaid iddi gyrraedd erbyn canol dydd ar 6 Chwefror 2008. Y sefydliad perthnasol sy'n gyfrifol am sicrhau bod ei Ffurflen Gais yn cyrraedd erbyn y dyddiad cau a'r amser a nodwyd uchod. **Nid ystyrir unrhyw Ffurflenni Cais a gyflwynir mewn unrhyw gyfrwng arall neu a fydd yn cyrraedd ar ôl y dyddiad cau a'r amser hwn.**

Sylwer mai dim ond y sefydliadau hynny a fydd yn cael eu cynnwys ar y rhestr fer fydd yn cael eu gwahodd i dendro am y cytundeb. Sylwer hefyd, gan gymryd bod gyda bo'r rhifau yn caniatáu hynny, y bydd isafswm o 5 sefydliad yn cael eu cynnwys ar y rhestr fer ac yn derbyn gwahoddiad i dendro am y cytundeb.

Nid yw'r broses dendro wedi'i chyfyngu i sefydliadau o faint penodol neu sefydliadau wedi'u lleoli mewn unrhyw leoliad(au) penodol. Yn ogystal, nid yw'r gallu i siarad â/neu weithio trwy gyfrwng y Gymraeg yn ofyniad hanfodol ar gyfer y cytundeb hwn. Fodd bynnag, yn unol â pholisi iaith Gymraeg S4C, mae S4C ac S4CI yn annog eu cyflenwyr i weithredu eu polisi iaith Gymraeg eu hunain neu i gydymffurfio ag ysbryd polisi iaith Gymraeg S4C wrth iddynt ddarparu gwasanaethau i S4C neu S4CI. Fodd bynnag, bydd yn rhaid i sefydliadau sy'n dymuno cyfranogi yn y broses dendro, ddangos bod ganddynt brofiad o sicrhau refeniw masnachol ar gyfer sianelau teledu yn llwyddiannus, gan gynnwys hysbysebu a nawdd ar lwyfannau darlledu ac ar-lein.

Bydd S4CI yn asesu'r holl Ffurflenni Cais a lenwir ac a gyflwynir erbyn y dyddiad a'r amser cau y cyfeiriwyd atynt uchod, yn unol â'r meini prawf canlynol, sydd wedi'u rhestru mewn trefn yn ôl eu pwysigrwydd:

• profiad y sefydliad o ddarparu gwasanaeth gwerthu nawdd a hysbysebu i sianelau teledu a llwyfannau ar-lein dros y blynyddoedd diwethaf ar sail traws-llwyfan.
• y strwythurau a'r prosesau gweinyddol o fewn y sefydliad o ran anfonebu, rheoli credyd ac adrodd yn ôl.
• y personél allweddol a fydd yn ymwneud â'r gwaith o gyflawni'r cytundeb a'u profiad perthnasol.

Yr Ail Gam: Gwahoddiad i Dendro

Ar hyn o bryd, rhagwelir y bydd y Ffurflenni Cais yn cael eu gwerthuso ac y bydd y rhestr fer o sefydliadau a fydd yn cael eu gwahodd i dendro yn cael ei llunio yn ystod ail wythnos mis Chwefror 2008, gyda'r holl sefydliadau a gyflwynodd

Ffurflen Gais wedi'i chwblhau yn cael eu hysbysu o ganlyniad eu cais mewn neges e-bost ar 11 Chwefror 2008.

Anfonir gwahoddiad ffurfiol i dendro i'r sefydliadau hynny a fydd yn cael eu cynnwys ar y rhestr fer.

Nodir yn y gwahoddiad i dendro y dyddiad cau a'r amodau ar gyfer cyflwyno ymatebion i'r gwahoddiad i dendro ond rhagwelir mai'r dyddiad cau fydd canol dydd ar 19 Mawrth 2008.

Nodir yn y gwahoddiad i dendro y meini prawf a ddefnyddir i werthuso ymatebion i'r gwahoddiad i dendro a gyflwynir erbyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno tendrau.

Ar hyn o bryd, mae S4CI yn rhagweld y bydd y penderfyniad ynghylch dyfarnu cytundeb yn cael ei wneud a'i hysbysu i sefydliadau a gyflwynodd ymateb i'r gwahoddiad i dendro ar neu cyn 16 Ebrill 2008.

Pwyntiau Pwysig i'w Nodi

Nid cynnig yw'r hysbyseb hon. Mae S4CI yn cadw'r hawl ar unrhyw adeg: (a) i dynnu yn ôl o a/neu roi'r gorau i a/neu ohirio'r broses dendro hon; (b) i beidio dyfarnu unrhyw gontract o ganlyniad i'r caffaeliad hwn.

Am wybodaeth gefndirol ar S4C gweler Adroddiad Blynyddol 2006 sydd ar gael ar wefan S4C (www.s4c.co.uk) neu drwy gysylltu â:

Gwifren Gwylwyr
S4C
Parc T□ Glas
Llanisien
Caerdydd
CF14 5DU
Rhif ffôn: 0870 600 4141